**Tasg 1**

# Dewch i gwrdd â …

1. Beth yw prif bwrpas y darn hwn?

hysbysebu rhaglen **Prynhawn Da** ☐

canmol cwmni Tinopolis ☐

rhoi gwybodaeth am un o'r cyflwynwyr ☐

beirniadu rhaglenni Cymraeg ☐

2. Ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**.

| | | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|---|
| a. | Cafodd Dafydd ei eni yng Nghaerdydd. | | |
| b. | Dyn camera yw Dafydd. | | |
| c. | Mae Dafydd yn chwilio am straeon diddorol ar gyfer rhaglen ar y teledu. | | |
| ch. | Mae Dafydd wedi bod i fyny Mynydd Everest. | | |
| d. | Roedd Dafydd yn casáu gweithio mewn siop. | | |

Cywirwch y brawddegau anghywir isod.

3. Chwiliwch yn y darn am eiriau neu ymadroddion sy’n gyfystyr (golygu’r un peth) â’r canlynol:

| | **Gair / ymadrodd cyfystyr** |
|---|---|
| dogfen sy’n dangos i ba genedl rydych chi’n perthyn | pasbort |
| yn agos i | |
| hobïau | |
| cyfarfod â | |
| ffeindio | |
| gwaith sydd heb ei recordio o flaen llaw | |
| chwilio am wybodaeth | |
| ar draws y wlad | |
| recordio llais i gyd-fynd â ffilm | |
| cyfrifoldebau | |
| pethau da yn y cof | |

4. Mae’r darn ar y brif sgrin yn cynnwys gwybodaeth ar ffurf nodiadau.

   Ysgrifennwch ddarn am Dafydd ar gyfer cylchgrawn Cymraeg – rhaid i chi ysgrifennu mewn brawddegau a pharagraffau llawn.

5. Chwiliwch am wybodaeth am rywun arall sy’n gweithio ar S4C, e.e.

**cyflwynydd** | **actor** | **canwr** | **gohebydd** | **darllenydd newyddion**

a. Ysgrifennwch nodiadau am y person.
b. Ysgrifennwch gyfweliad gyda’r person ar gyfer cylchgrawn.

Cofiwch mewn cyfweliad, rhaid ysgrifennu cwestiynau ac atebion, e.e.

Cyfwelydd: Beth ydy’ch gwaith chi?
Dafydd: Dw i’n cyflwyno’r rhaglen **Prynhawn Da**.